
PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 10.09.18

Yn bresennol: Y Cynghorwyr, Steve Collings, Annwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Jason Wayne Parry, Peter Read, Angela Russell, Elfed W. Williams a Gareth Williams

Hefyd yn Bresennol: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Geraint B Edwards (Cyfreithiwr) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Brynmor Hughes, Sïon Jones, Rheinallt Puw ac Annwen Daniels

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 o Fehefin 2018 fel rhai cywir.

5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 22.05.2018, 17.07.2018 a 24.07.2018

6. FFOEDD ARFAETHEDIG TRWYDDEDAU TACSIS 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn adrodd ar yr ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â chodi ffioedd trwyddedau tacsis er mwyn sicrhau bod costau ynghlwm a gweinyddiaeth trwyddedau yn cael eu hadennill yn llawn. Atgoffwyd yr Aelodau bod Adran 53 a 70 o Ddeddf Llywodraeth

Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn amlygu y caiff y ffioedd eu codi ar lefel ddigonol i dalu costau rhesymol; byddai'r cynnydd ar gyfartaledd o 28%.

Adroddwyd bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben ar y 30ain o Awst a chadarnhawyd nad oedd unrhyw wrthwynebiad neu sylwadau ysgrifenedig wedi dod i law. Amlygwyd bod un cwmni lleol wedi crybwyll mewn e-bost y byddai yn syniad adolygu'r prisiau mae'r diwydiant yn gallu ei godi ar gwsmeriaid. Derbyniwyd y sylw hwn gan nad oedd cais am adolygiad wedi ei wneud ers blynnyddoedd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Bod llawer o waith wedi ei wneud i gyfarch a gwarchod y diwydiant yn y gorffennol
- Bod cais am drwydded tair blynedd yn rhatach yn y pendraw na thrwydded blwyddyn a bod yr arbediad yn sylweddol

Mewn ymateb i sylw bod awgrym wedi ei wneud i adolygu ffioedd cwsmeriaid, nodwyd bod rhaid cael cais ysgrifenedig gan gynrychiolydd o'r diwydiant er mwyn cychwyn y broses yn ffurfiol. Ategwyd y byddai'r swyddogion yn annog y diwydiant i gyflwyno llythyr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thrafodaethau briffio gyda'r Aelodau Cabinet, ynglŷn â'r mater, adroddwyd bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r Aelod Cabinet a bod yr Aelod Cabinet yn ymwybodol mai adennill costau yw'r egwyddor.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag adolygu a chysoni rheoliadau ar draws Gwynedd, nodwyd y byddai hyn yn cael ei ystyried wrth adolygu Polisiâu Tacsï Cyngor Gwynedd

PENDERFYNWYD cymeradwyo yn derfynol y cynnig i godi'r ffioedd, yn weithredol o'r 1af o Hydref 2018, i'r lefel a argymhellir; yn unol â'r drefn a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:15am